**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd: | |
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); P Bass (Ysgrifenyddiaeth/Cofnodydd).

1. YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim

3. RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Gofynnodd y PST a fyddai'n cael rhoi gwybodaeth i'r aelodau am Gwest y Crwner mewn perthynas â thân a ddigwyddodd yn Ninbych ym mis Awst 2017; cytunwyd i wneud hyn dan ran II.

4. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 CHWEFROR 2018

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5. MATERION YN CODI

5.1 Mae sesiwn ymwybyddiaeth ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ar gyfer aelodau'r ATA wedi cael ei threfnu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

6. TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID AR GYFER AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

6.1 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y newidiadau arfaethedig i drefniadau cyllid a llywodraethu awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru.

6.2 Roedd yr aelodau wedi cael gwybod eisoes fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mynegi ei fwriad i newid trefniadau cyllid a llywodraeth ATAau yng Nghymru. Roedd llythyr i ymateb ar y cyd gan Gadeiryddion y tri ATA yng Nghymru wedi cael ei atodi i'r adroddiad er gwybodaeth i'r aelodau.

6.3 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Cadeiryddion eraill ar 30 Ebrill. Ers y cyfarfod hwnnw, roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu at Gadeiryddion pob ATA yng Nghymru i roi gwybod iddynt ei fod wedi trefnu i gael rhywfaint o fewnbwn annibynnol i hwyluso'r broses o 'siapio trefniadau cyllid a llywodraethu'r ATA' ac y bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu cyn bo hir i symud ymlaen â hyn.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r ohebiaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd.**

7. CYNLLUN GWELLA A LLESIANT 2019/20

7.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad sy'n crynhoi'r cynnydd a wnaed gan y Gweithgor Cynllunio i ddatblygu amcanion gwella a llesiant ATAGC ar gyfer 2019/20. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau wneud argymhellion ffurfiol i'r ATA ar y dull y dylai ei fabwysiadu mewn perthynas â'i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.

7.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y sefyllfa ariannol a'r ffaith fod yr Awdurdod yn wynebu tua £1.89 miliwn o ddiffyg yn y gyllideb. Dros yr wythnosau diwethaf, mae cyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio wedi canolbwyntio ar gyllido'r diffyg hwn a ragwelir.

7.3 Nodwyd bod y gweithgor wedi cyfarfod bum gwaith ac wedi derbyn gwybodaeth helaeth am y costau gwaelodol a'r gweithgareddau. Roedd yr adroddiad i'r Panel Gweithredol yn darparu'r materion allweddol y bu'r gweithgor yn eu trafod, ynghyd â rhai o'r opsiynau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2019/20.

7.4 Cafodd yr aelodau wybod am y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cronfeydd nad ydynt wedi'u neilltuo fel ateb yn y tymor byr.

7.5 Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd ystyried y mater o gynnig cyflog y diffoddwyr tân, sy'n cael ei bennu ar lefel genedlaethol. O fewn y trafodaethau hynny, mae'r opsiwn o helaethu'r gydnabyddiaeth ariannol yn gyfnewid am ehangu rôl y diffoddwyr tân. Gallai hynny olygu y gallai fod rhaid adolygu maint y gweithlu, a'r math o weithlu sydd ei angen.

7.6 Nododd y Cyng. R Griffiths fod paragraff 50 o'r adroddiad yn cynnwys yr opsiwn i gau un neu ragor o'r gorsafoedd RDS. Cadarnhaodd y PST y byddai angen i unrhyw ystyriaeth i gau gorsaf RDS ddigwydd yng nghyd-destun darparu gofal tân strategol gan fod yn ymwybodol o effaith penderfyniad o'r fath ar y proffil risgiau cyffredinol yng Ngogledd Cymru.

7.7 Ceisiodd y Cyng. P R Lewis eglurhad ynglŷn â pha effaith y byddai cynnydd o £1.9m yn ei chael ar gyfraniadau o filiau'r dreth gyngor ym mhob awdurdod lleol. Cadarnhaodd y PSC MacArthur fod yr asesiad gwariant safonol ar gyfer pob awdurdod lleol yn cynnwys elfen tân, yn seiliedig ar y boblogaeth. Oherwydd proffil pob awdurdod lleol, ac ansicrwydd o ran yr asesiad gwariant safonol ar gyfer 2019/20, nid oedd modd pennu'r swm y byddai angen ei gael drwy'r dreth gyngor.

7.8 Fe wnaeth y Cyng. P R Lewis longyfarch yr awdur am ddogfen gynhwysfawr, llawn gwybodaeth a hawdd ei darllen.

7.9 **PENDERFYNWYD**

**(i) diystyru opsiwn (c) oherwydd yr elfen o risg. Opsiwn (c) oedd cynyddu cyfanswm cyfunol y cyfraniad gan yr awdurdodau lleol o lawer llai na £1,898,000; byddai hyn wedi golygu yr angen am ostyngiadau sylweddol yn y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru;**

**(ii)** **argymell i'r ATA, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, gynnig drafft ar gyfer ymgynghoriad ar sail yr opsiynau i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir mewn termau strategol, sef:**

**a)** **cael amcangyfrif o £1,898,000 o gynnydd yng nghyfanswm cyfunol y cyfraniad gan yr awdurdodau lleol, ac felly gadw lefelau presennol y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru; NEU**

**b)** **cael mymryn llai o gynnydd na £1,898,000 yng nghyfanswm cyfunol y cyfraniad gan yr awdurdodau lleol, ac felly gadw'r prif wasanaethau tân ac achub yng Nghymru ond bod angen gwneud rhai arbedion;**

**(iii)** **enwebu'r Cyng. P R Lewis i gyflwyno'r adroddiad yn nodi argymhelliad y Panel Gweithredol i'r ATA yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.**

**(iv)** **enwebu'r Cyng. M Ll Davies wrth gefn i gyflwyno'r adroddiad i'r ATA yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.**

8. STRATEGAETH YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD I GEFNOGI'R GWAITH O DDATBLYGU CYNLLUN GWELLA A LLESIANT ATAGC 2019/20

8.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer ymgynghoriad yr Awdurdod â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn 2018 fel rhan o'r broses o ddatblygu ei Gynllun Gwella a Llesiant 2019/20.

8.2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) gyhoeddi amcanion gwella a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny. Nodwyd mai nod y strategaeth yw ymgynghori'n gyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2018; mae'n cynnwys gwahanol agweddau er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl, a bydd y dull ymgysylltu yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol, holiadur, fideo dwyieithog, taflenni haws eu darllen ac anogaeth sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a gwasanaethau brys eraill i helpu i rannu gwybodaeth yr ATA.

8.3 Roedd yr aelodau'n croesawu'r strategaeth a **PHENDERFYNWYD cefnogi'r strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd fel yr amlinellir yn yr adroddiad, i'w chyflwyno rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2018.**

9. RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

9.1 Cyflwynodd y PST Morris yr adroddiad a oedd yn crynhoi cynnwys cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

9.2 Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r risgiau sydd yn y fersiwn ddiweddaraf o'r gofrestr gyfrinachol yr oedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi'i gweld ar 11 Mai 2018.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol a ganfuwyd ac sy'n wynebu'r Awdurdod.**

10. RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS (ESMCP)

10.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Raglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP).

10.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y system genedlaethol gyfredol ar gyfer cysylltiadau radio a data, Airwave, sy'n cael ei defnyddio gan y gwasanaethau brys yn y DU i fod i ddod i ben yn Rhagfyr 2019. Cafodd prosiect cenedlaethol newydd o'r enw Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) ei sefydlu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi, ac mae'n cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref i sefydlu gwasanaeth newydd.

10.3 Nododd yr Aelodau y materion a'r risgiau niferus sy'n gysylltiedig â'r prosiect cenedlaethol a bod yr amserlen ar gyfer rhoi contract newydd ar waith wedi profi oedi mawr. Cytunwyd y bydd yr aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11. CWEST Y CRWNER

11.1 Rhoddodd y PST wybod i'r aelodau am fanylion a chanlyniad Cwest y Crwner a gynhaliwyd yn ddiweddar yn dilyn y digwyddiad trasig yn Ninbych yn ystod Awst 2017.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**